SCHEDULE 2

ERTHYGLAU CYMDEITHASU CWMNI RTM
DEDDF CWMNÏAU 2006
ERTHYGLAU CYMDEITHASU [ENW] CWMNI RTM CYFYNGEDIG
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT SYDD HEB GYFALAF CYFRANDDALIADAU

# RHAN 6

## INDEMNIAD AC YSWIRIANT CYFARWYDDWYR

### Indemniad

**43.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ceir indemnio cyfarwyddwr perthnasol y cwmni neu gwmni cysylltiol, allan o asedau'r cwmni, rhag—

(a) unrhyw atebolrwydd a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad ag unrhyw esgeulustod, diffyg, tor-dyletswydd neu dor-ymddiriedaeth mewn perthynas â'r cwmni neu gwmni cysylltiol,

(b) unrhyw atebolrwydd a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad â gweithgareddau'r cwmni neu gwmni cysylltiol yn ei swyddogaeth fel ymddiriedolwr cynllun pensiwn galwedigaethol (fel y'i diffinnir yn adran 235(6) o Ddeddf Cwmnïau 2006),

(c) unrhyw atebolrwydd arall a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw fel swyddog y cwmni neu gwmni cysylltiol.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn awdurdodi unrhyw indemniad a waherddid neu a wneid yn ddi-rym gan unrhyw ddarpariaeth o'r Deddfau Cwmnïau neu gan unrhyw ddarpariaeth arall o'r gyfraith.

(3) Yn yr erthygl hon—

(a) mae cwmnïau yn gysylltiol os yw un yn is-gwmni i'r llall, neu'r ddau yn is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol, a

(b) ystyr "cyfarwyddwr perthnasol" yw unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr y cwmni neu gwmni cysylltiol.

### Yswiriant

**44.**—(1) Caiff y cyfarwyddwyr benderfynu prynu a chynnal yswiriant, ar gost y cwmni, er budd unrhyw gyfarwyddwr perthnasol mewn perthynas ag unrhyw golled berthnasol.

(2) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "cyfarwyddwr perthnasol" yw unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr y cwmni neu gwmni cysylltiol,

(b) ystyr "colled berthnasol" yw unrhyw golled neu atebolrwydd a dynnwyd gan gyfarwyddwr perthnasol, neu y gallai cyfarwyddwr perthnasol ei thynnu, mewn cysylltiad â dyletswyddau neu bwerau'r cyfarwyddwr hwnnw mewn perthynas â'r cwmni, a chwmni cysylltiol neu unrhyw gronfa bensiwn neu gynllun cyfranddaliadau cyflogeion y cwmni neu gwmni cysylltiol, ac

(c) mae cwmnïau yn gysylltiol os yw un yn is-gwmni i'r llall, neu'r ddau yn is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol.